



**ADRODDIAD GAN Y
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE
REPORT**

Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Brwselosis 1997 (O.S. 1997/758) ac yn ail-ddeddfu ei sylwedd o ran Cymru.

Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn ar gyfer eu hadrodd o dan RS 11.7.

Yn nhestun Cymraeg erthygl 1(1), mae teitl y Rheol yn cynnwys 2005 yn lle 2006. [Rheol Sefydlog 11.7 (v)]

Mae erthygl 2(1) yn diffinio'r "Cynulliad Cenedlaethol" i olygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dylid felly ailosod y term diffiniedig drwy'r Gorchymyn ar ei hyd lle defnyddir y teitl llawn, ac eithrio yn y diffiniad hwnnw. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Ar ddiwedd erthygl 2(1), mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol, ond nid felly'r testun Saesneg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn rheoliad 3, defnyddir yr ymadrodd "article 11(5) of that Order" [erthygl 11(5) o'r Gorchymyn

hwnnw] yn y testun Saesneg, tra bod y testun Cymraeg yn defnyddio "erthygl 11(5) o'r Gorchymyn hwn" [article 11(5) of this Order]. Mae Erthygl 11(5) yn ymdrin â dosbarthu trwyddedau, sydd yn awgrymu bod y Saesneg yn gywir ac y dylid newid y Gymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mewn sawl lle yn y Rheol, gan gynnwys erthygl 4(2), 15 a 16, defnyddir y gair "will" yn Saesneg, tra defnyddir "caiff" [may] neu "rhaid" [must] yn gywir yn Gymraeg. Heblaw am achosion o wneud datganiad syml (fel yn erthygl 18), nid yw "will" yn briodol mewn deddfwriaeth ar wahân i'r achlysuron hynny lle mae'n disgrifio canlyniad. [Rheol Sefydlog 11.7(v a vi)]

Yn rheoliad 5, defnyddir yr ymadrodd "any premises" [unrhyw fangre] ddwywaith yn y testun Saesneg, tra nad yw'r Gymraeg yn cyfleu'r elfen "any" yn y ddau achos. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn erthygl 7(2)(a), mae "fastenings" yn Saesneg yn cyfateb i "caeadau" yn Gymraeg. Yn y ddarpariaeth gyfatebol yn y Gorchymyn Lewcosis Ensöotig, "caewyr"yw'r gair Cymraeg a ddefnyddir. Dylai'r term fod yn gyson pan gyflawna'r un diben. Gan fod "caeadau" fel arfer yn golygu "lids", ystyrir mai "caewyr" yw'r dewis gorau yn y cyd-destun hwn. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn erthygl 11(3)(d), ceir "such slurry" yn y testun Saesneg i olygu slyri o'r fath a grybwyllwyd yn gynharach. Mae'r Gymraeg, fodd bynnag, yn cyfeirio at slyri yn gyffredinol, heb yr ymadrodd "o'r fath" fyddai'n cyfeirio'n ôl at y disgrifiad cynharach. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae geiriad testun Cymraeg erthygl 15(3) yn golygu na cheir symud gwartheg ond yn unol â'r paragraffau y cyfeirir atynt. Dylai nodi mai ond pan fydd amodau 15(3) wedi'u cyflawni y ceir symud anifeiliaid yn unol â'r paragraffau hynny. Byddai symud yr ymadrodd "yn unol ...uchod" i ddiwedd y paragraff yn amlygu'r bwriad. [Rheol Sefydlog 11.7(v a vi)]

Mân wallau argraffyddol neu ddrafftio yw'r rhain sydd yn addas i'w cywiro mewn Memorandwm Cywiriadau.

Sylwadau

Tynnwyd sylw'r cyfreithiwr drafftio at fân bwyntiau fformatio sydd yn addas i'w cywiro wrth gyhoeddi.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

7 Mawrth 2006